

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Penclawdd,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 12 Mawrth 2024

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mehefin 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Penclawdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 12 Mawrth 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 32 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ac mae ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff ym Mhractis Deintyddol Penclawdd yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais, gyfeillgar a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Glân iawn ac aeth y deintydd cyfeillgar y tu hwnt i bob disgwyliad wrth esbonio pethau a rhoi help i mi benderfynu ar driniaeth.”

“Roedd y staff yn gyfeillgar iawn ac yn barod iawn i helpu.”

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol a chroesawgar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd addasiadau wedi'u gwneud er mwyn helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd
- Roedd gwybodaeth ddefnyddiol ar gael yn glir i gleifion
- Roedd y gwasanaeth yn annog adborth gan gleifion, ac yn gweithredu arno.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni.

Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff pob adran o'r Ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd ei chwblhau
- Rhoi polisi golchi dillad ar waith
- Sicrhau y caiff cydsyniad llafar ei nodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar, ac yn addas at y diben
- Roedd y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol
- Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau arferion rheoli heintiau o safon uchel
- Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith ym Mhracis Deintyddol Penclawdd. Roedd perchnogion a rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal yn dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff ac arfarniadau rheolaidd.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal archwiliad rhoi'r gorau i smygu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Defnyddio system electronig i reoli gofynion hyfforddiant y staff
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu, ac maent yn treulio amser yn esbonio'r hyn maent yn ei wneud ac yn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw boen”.

“Rwy'n hapus iawn gyda (Deintydd) a'i staff. Mae eu sgiliau a'r gofal y maent yn ei roi yn arbennig. Rwyf bob amser yn edrych ymlaen at fynd i weld (Deintydd)”.

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom amrywiaeth o daflenni a phosteri yn ardal y dderbynfa a oedd yn rhoi gwybodaeth i gleifion, er enghraifft lefelau siwgr mewn diodydd meddal gwahanol. Roedd sgriniau teledu yn cael eu defnyddio i alw cleifion i'r deintyddfeydd ac roeddent hefyd yn arddangos gwybodaeth am iechyd y geg. Dywedodd y staff wrthym fod thema ardal arddangos fach yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad, y thema oedd rhoi'r gorau i smygu, er mwyn cyd-fynd â'r diwrnod 'dim smygu' cenedlaethol.

Roedd arwydd 'dim smygu' yn cael ei arddangos yn glir wrth y drws ffrynt, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal Urddasol a Pharchus

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, ac roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr ardaloedd aros, er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd prisiau triniaethau ar gyfer gofal y GIG a gofal preifat yn cael eu harddangos yn glir.

Roedd tystysgrifau cofrestru a gyhoeddwyd gan AGIC a chopïau o God Moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ardal y dderbynfa. Rodd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd yn cael ei harddangos.

Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn glir. At hynny, roedd poster yn dangos lluniau o aelodau o'r staff.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn yn 'cytuno'n gryf' bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a wnaeth gadarnhau bod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedodd y staff wrthym fod system anfon neges ar unwaith ar waith i'r rhai a oedd yn gweithio yn y deintyddfeydd er mwyn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion wedyn yn cael gwybod am yr oedi ar lafar ac yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu'r apwyntiad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir ar y drws ffrynt, ynghyd â rhifau ffôn i'w defnyddio y tu allan i oriau neu mewn argyfwng.

Nid oedd y practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein, ond gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Dywedodd y staff wrthym fod apwyntiadau brys, ar gyfer pob deintydd, ar gael bob dydd a bod apwyntiadau a ganslwyd yn cael eu cynnig fel mater o drefn i gleifion ar restr aros. Roedd staff y dderbynfa yn nyrsys deintyddol hyfforddedig a byddent yn blaenoriaethu apwyntiadau brys yn seiliedig ar symptomau'r cleifion a'u hanghenion clinigol.

Dywedodd pawb a gwblhaodd holiadur AGIC ond un ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Roedd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith yn y practis. Roedd poster dwyieithog ar y drws ffrynt yn annog cleifion i ddweud wrth y staff pe bai'n well ganddynt gael triniaeth yn Gymraeg. Dywedodd y staff wrthym fod dau aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, a gwelsom fod y ddau ohonynt yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith i ddangos hyn.

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu 'Language Line' ar gael iddynt pe bai eu hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd Polisi Cydraddoldeb, Urddas a Hawliau Dynol ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys diffiniadau o nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac yn ymdrin â hawliau cleifion a staff.

Dywedodd y staff wrthym fod enwau a/neu ragenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch

Gwelsom fod darpariaeth dda ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Roedd un ddeintyddfa ar y llawr gwaelod, y gellid ei chyrraedd drwy ddefnyddio ramp, a dywedodd y staff wrthym fod pob deintydd yn defnyddio'r ddeintyddfa hon yn rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym pe bai angen i gleifion gael eu trin yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod neu pe bai'n well ganddynt hynny, y byddai hyn yn cael ei nodi yn eu cofnodion.

Roedd cefnau uchel a breichiau ar y cadeiriau yn yr ardaloedd aros, er mwyn cynorthwyo cleifion ag anawsterau symudedd. Roedd y toiled i gleifion ar y llawr gwaelod a gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn ei gyrraedd yn hawdd. Roedd hefyd yn cynnwys larymau argyfwng a handlenni cydio.

Roedd system dolen sain wedi'i gosod yn ardal y dderbynfa er mwyn cynorthwyo cleifion ag anawsterau clywed, ac roedd sgriniau teledu yn cael eu defnyddio i alw cleifion i'r deintyddfeydd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod yr adeilad yn lân ac mewn cyflwr da, ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Roedd cofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân rheolaidd wedi cael eu cynnal. Roedd diffoddwyr tân yn cael eu storio'n gywir, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Gwelsom fod polisi Cynnal a Chadw'r Adeilad ar waith, ond nid oedd yn cynnwys digon o fanylion. Dywedodd y staff wrthym fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r safle a'r cyfarpar. Gwnaethom awgrymu y dylid defnyddio rhestr wirio er mwyn ffurfioli a chofnodi'r gwiriadau a oedd yn cael eu cynnal, ac y dylai hyn gynnwys gwiriadau gweledol o'r cyfarpar pelydr-X. Cafodd y polisi Cynnal a Chadw'r Adeilad ei ddiweddarau, a rhoddwyd rhestr wirio addas ar waith yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod Polisi Iechyd a Diogelwch priodol ar waith yn y practis, ynghyd â threfniadau priodol ar gyfer trin deunyddiau sy'n destun y rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Roedd polisi cyfredol ar gyfer Cynllunio ar gyfer Trychinebau a Pharhad Busnes ar waith yn y practis. Dywedodd y staff wrthym pe bai unrhyw darfu ar y busnes, y gallent gael gafael ar gofnodion y cleifion a'r system ffôn o bell.

Roedd cyfleusterau newid y gellir eu cloi ar gael i'r staff ynghyd â loceri storio ar gyfer eitemau personol.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau Roedd y toiled i gleifion yn lân yr olwg ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau ar gyfer mislif.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod arferion rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau priodol, arweinydd

rheoli heintiau dynodedig a threfniadau glanhau effeithiol. Roedd y cadeiriau yn yr ardaloedd aros wedi'u gwneud o ddeunydd y gellid ei sychu'n lân ac roeddent mewn cyflwr da.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio yn briodol ac wedi'u deall yn dda. Roedd baddon uwchsain â chlo amser yn cael ei ddefnyddio, er mwyn sicrhau bod offer yn mynd drwy'r gylchred lanhau lawn, a oedd yn arfer canmoladwy.

Gwelsom y gallai drws yr ystafell ddihalogi gael ei adael ar agor a gwnaethom awgrymu y dylid gosod mecanwaith hunan-gau arno, er mwyn lleihau'r risg o halogi.

Rydym yn argymhell y dylid gosod mecanwaith hunan-gau ar ddrws yr ystafell ddihalogi.

Dyweddodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff ac roeddem o'r farn eu bod yn foddhaol ar y cyfan. Dywedodd y staff wrthym fod hen feddyginiaethau neu feddyginiaethau heb eu defnyddio, gan gynnwys Midazolam, yn cael eu danfon i fferyllfa leol i'w gwaredu, ond nad oedd unrhyw dderbynebau'n cael eu rhoi. Gwnaethom awgrymu y dylid cofnodi tystiolaeth o waredu meddyginiaethau a'i chadw at ddibenion archwilio. Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad drwy ychwanegu elfen gwaredu meddyginiaethau at gontract gwaredu gwastraff presennol y practis.

Gwelsom fod trefniadau priodol a diogel ar waith yn y practis ar gyfer rheoli meddyginiaethau, wedi'u hategu gan bolisi Rheoli Meddyginiaethau.

Gwnaethom ystyried y trefniadau a'r cyfarpar a oedd ar waith i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, ar wahân i'r ffaith bod rhai o'r masgiau wyneb ar gyfer y bagiau hunanchwyddo ar goll. Dangosodd y staff dystiolaeth yn ystod yr arolygiad i brofi eu bod eisoes wedi cael eu harchebu, ac yn syth ar ôl yr arolygiad, cafwyd tystiolaeth ffotograffig i ddangos eu bod wedi cyrraedd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), a bod dau aelod o'r staff wedi'u hyfforddi i fod yn swyddogion cymorth cyntaf.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau diogelu ar waith a'u bod ar gael i bob aelod o'r staff. Roedd siartiau llif yn cael eu harddangos, ynghyd â manylion cyswllt priodol, ac roedd y gweithdrefnau yn nodi y dylid cofnodi unrhyw achosion lle byddai plant yn methu apwyntiadau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd arweinydd diogelu dynodedig a oedd wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 3, ac rydym o'r farn bod hyn yn arfer da.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Nodwyd gennym fod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

Gwelsom fod stocrestr o gyfarpar pelydr-X, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar waith yn y practis. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Roedd Ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd electronig yn cael ei chadw. Fodd bynnag, nid oedd rhai adrannau ohoni wedi cael eu cwblhau, er enghraifft yr adran yn ymwneud â pholisi Gofalwyr a Chysurwyr. At hynny, roedd asesiad risg diogelu rhag ymbelydredd wedi cael ei gynnal, ond nid oedd y cynllun gweithredu wedi cael ei gwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob adran berthnasol o'r Ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd ei chwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cynllun gweithredu'r Asesiad Risg Diogelu rhag Ymbelydredd ei gwblhau.

Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael ar y safle i olchi gwisgoedd y staff. Gwnaethom awgrymu y dylid rhoi polisi golchi dillad ar waith, yn unol â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-04.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi golchi dillad priodol ei roi ar waith, yn unol â gofynion WHTM 01-04.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Esboniodd y staff sut y byddent yn dod o hyd i ganllawiau a chynghor proffesiynol ac yn eu dilyn lle byddai angen gwneud hynny.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion Cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â'r polisi Rheoli Cofnodion.

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a gwelsom brosesau da iawn ar gyfer cofnodi gwybodaeth glinigol. Roedd y cleifion yn cael eu hatgoffa i gyflwyno eu hanes meddygol diweddaraf, drwy borth electronig, cyn eu hapwyntiad. Gwnaethom nodi bod angen gwella'r broses o gofnodi cydsyniad llafar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad llafar i driniaeth bob amser ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael blaenoriaeth lle y bo'n bosibl, a bod unrhyw apwyntiadau a ganslwyd yn cael eu cynnig i eraill gan ddefnyddio rhestr aros.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, ac roedd y practis yn gweithredu o dan gyfarwyddyd y prif ddeintyddion, a oedd hefyd yn berchen ar y practis, a rheolwr y practis. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal, a bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu a'u llofnodi er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisi Cyflogi a Sefydlu, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion. Roedd rhestr wirio yn cael ei defnyddio, a oedd yn cynnwys prawf adnabod a gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd y polisi yn ymdrin â'r defnydd o staff asiantaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r un gwiriadau gael eu cynnal.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff (4 o 12) a gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu rhag Hepatitis B. Gwelsom hefyd fod gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal.

Roedd cydymffurfiaeth dda â gofynion hyfforddiant gorfodol ac roedd rheolwr y practis yn monitro hyn mewn modd gweithredol.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i gasglu adborth gan gleifion drwy flwch awgrymiadau a phosteri a oedd yn cyfeirio cleifion at arolwg ar-lein. Roedd poster

'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros i ddangos bod camau gweithredu yn cael eu cymryd o ganlyniad i adborth.

Roedd gweithdrefn gwyno glir a chynhwysfawr ar waith. Roedd y weithdrefn hon i'w gweld yn glir, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ardal y dderbynfa. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt, amserlenni ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen, ynghyd â manylion AGIC a'r Ombwdsmon.

Dywedodd y staff wrthym fod cwynion llafar ac ysgrifenedig yn cael eu cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd, a bod unrhyw faterion a champau gweithredu yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm.

Roedd polisi ar waith mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol yn hyn o beth.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion y cleifion, polisiau a gweithdrefnau a chofnodion hyfforddiant y staff.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom nad oedd polisi Archwilio a Gwella Ansawdd ar waith. Trafodwyd hyn â'r staff a chafodd polisi priodol ei lunio a'i ddarparu i ni yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o archwiliadau yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu wedi cael ei gynnal, ond dywedodd y staff wrthym fod hyn yn yr arfaeth ac y byddai'n cael ei gynnal pan fyddai'r hyfforddiant priodol wedi'i gwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu ei gynnal.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio adnoddau hyfforddi gwella ansawdd a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) - gan gynnwys y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth (MMD) a'r Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET).

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Dywedodd y staff wrthym mai dros y ffôn neu drwy e-bost yr oedd y practis yn rhyngweithio â phartneriaid system fel arfer. Roedd yn defnyddio systemau electronig i atgyfeirio cleifion, ac i gael gafeael ar fetrigau a'u monitro (system eDEN).

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Gwelsom fod polisi Cynnal a Chadw'r Adeilad ar waith, ond nid oedd yn cynnwys digon o fanylion. Gwnaethom awgrymu y dylid defnyddio rhestr wirio er mwyn ffurfioli a chofnodi'r gwiriadau a oedd yn cael eu cynnal, ac y dylai hyn gynnwys gwiriadau gweledol o'r cyfarpar pelydr-X.</p>	<p>Byddai polisi cadarn a rhestr wirio yn sicrhau bod y safle a'r cyfarpar yn cael eu gwirio yn rheolaidd, a bod unrhyw faterion yn cael eu nodi.</p>	<p>Codwyd hyn gyda Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Cafodd y polisi Cynnal a Chadw'r Adeilad ei ddiweddarau, a rhoddwyd rhestr wirio addas ar waith yn ystod yr arolygiad.</p>
<p>Dywedodd y staff wrthym fod hen feddyginiaethau neu feddyginiaethau heb eu defnyddio, gan gynnwys Midazolam, yn cael eu danfon i</p>	<p>Dylid cofnodi tystiolaeth o waredu meddyginiaethau yn ddiogel a'i chadw at ddibenion archwilio.</p>	<p>Codwyd hyn gyda Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad drwy ychwanegu elfen gwaredu meddyginiaethau at gontract gwaredu gwastraff presennol y practis.</p>

fferyllfa leol i'w gwaredu, ond nad oedd unrhyw dderbynebau'n cael eu rhoi.			
Gwnaethom edrych ar y cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol a gwelsom fod rhai o'r masgiau wyneb ar gyfer y bagiau hunanchwyddo ar goll.	Gallai hyn leihau effeithiolrwydd triniaethau adfywio mewn argyfwng meddygol.	Codwyd hyn gyda Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.	Dangosodd y staff dystiolaeth yn ystod yr arolygiad i brofi eu bod eisoes wedi cael eu harchebu, ac yn syth ar ôl yr arolygiad, cafwyd tystiolaeth ffotograffig i ddangos eu bod wedi cyrraedd.
Gwelsom nad oedd polisi Archwilio a Gwella Ansawdd ar waith.	Byddai'r polisi yn helpu i fonitro a gwella gwasanaethau'r practis.	Codwyd hyn gyda Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.	Cafodd polisi priodol ei lunio a'i ddarparu i ni yn ystod yr arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Penclawdd

Dyddiad yr arolygiad: 12 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys pellach yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dd/G

Swydd: Dd/G

Dyddiad: Dd/G

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Penclawdd

Dyddiad yr arolygiad: 12 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gallai drws yr ystafell ddihalogi gael ei adael ar agor.	Rydym yn argymhell y dylid gosod mecanwaith hunan-gau ar ddrws yr ystafell ddihalogi, er mwyn lleihau'r risg o halogi.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliadau 13(3) a 13(6)(b)	Rydym wrthi'n cael dyfynbrisiau ar gyfer gosod y mecanwaith hunan-gau.	Rebecca Moyle	I'w osod erbyn mis Gorffennaf 2024
Roedd Ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd electronig yn cael ei chadw. Fodd bynnag, nid oedd rhai adrannau ohoni wedi cael eu cwblhau, er enghraifft yr adran yn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob adran berthnasol o'r Ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd ei chwblhau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(a)	Mae'r Ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd wrthi'n cael ei hadolygu.	Rebecca Moyle	I'w gwblhau erbyn mis Mehefin 2024

<p>ymwneud â pholisi Gofalwyr a Chysurwyr.</p>					
<p>Roedd asesiad risg diogelu rhag ymbelydredd wedi cael ei gynnal, ond nid oedd y cynllun gweithredu wedi cael ei gwblhau.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cynllun gweithredu'r Aseiad Risg Diogelu rhag Ymbelydredd ei gwblhau.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(a)</p>	<p>Mae cynlluniau gweithredu'r asesiad risg diogelu rhag ymbelydredd wedi cael eu cwblhau.</p>	<p>Rebecca Moyle</p>	<p>Wedi'i gwblhau 30/04/2024</p>
<p>Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael ar y safle. Gwnaethom awgrymu y dylid rhoi polisi golchi dillad ar waith, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-04.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi golchi dillad priodol ei roi ar waith, yn unol â gofynion WHTM 01-04.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(6)(b)</p>	<p>Mae polisi golchi dillad wedi'i lunio a'i roi ar waith.</p>	<p>Rebecca Moyle</p>	<p>Wedi'i gwblhau 28/04/2024</p>
<p>Wrth edrych ar sampl o gofnodion y cleifion, gwelsom nad oedd cydsyniad llafar bob amser yn cael ei gofnodi.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad llafar i driniaeth bob amser ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)</p>	<p>Cynhaliwyd cyfarfod ar 23 Ebrill 2024 i drafod y drefn ar gyfer cofnodi cydsyniad llafar ar gyfer pob claf yn ystod pob apwyntiad.</p>	<p>Rebecca Moyle</p>	<p>Wedi'i gwblhau 23/04/2024</p>

Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu ei gynnal.

Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(1)

Mae pob aelod o'r staff wrthi'n cwblhau hyfforddiant ar roi'r gorau i smygu (VBA+). Rydym wedi cael yr holl ddogfennau gan AaGIC, yn barod i ddechrau'r archwiliad ar 07/05/2024.

Rebecca Moyle

Disgwylir i'r archwiliad ddechrau ar 07/05/2024, a chaiff ei gynnal dros gyfnod o ddau fis.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rebecca Moyle

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 28/04/2024